OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 92

# Rheoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gofynion o ran Gwybodaeth a Chyfansoddiad) (Cymru) (Diwygio) 2020

**Diwygio Rheoliadau 2016**

**7.** Yn Atodlen 1(**1**) (gofynion UE penodedig)—

(a) yn y rhan o'r tabl sy'n ymwneud â Rheoliad yr UE, yn y cofnod sy'n ymwneud ag "Erthygl 15(1) (rhestr yr Undeb)", yng ngholofn 2, yn lle "Erthyglau 1(1)(c), 4(1) a'r Atodiad i'r graddau y mae'n gymwys i fwyd at ddibenion meddygol arbennig" rhodder "Erthyglau 1(1)(a) ac (c) a 4(1) a'r Atodiad i'r graddau y mae'n gymwys i fformiwla fabanod, fformiwla ddilynol, a bwyd at ddibenion meddygol arbennig";

(b) yn lle'r rhan o'r tabl sy'n ymwneud â'r Rheoliad Dirprwyedig rhodder—

| "**Darpariaeth benodedig yn y Rheoliad Dirprwyedig** | **Y darpariaethau sydd i gael eu darllen gyda'r ddarpariaeth benodedig yn y Rheoliad Dirprwyedig** |
|---|---|
| Erthygl 2(2) (gofyniad i fformiwleiddiad bwyd fod yn seiliedig ar egwyddorion meddygol a maethol cadarn) | Erthygl 1 |
| Yr is-baragraff cyntaf o Erthygl 2(3) (gofyniad i fwyd at ddibenion meddygol arbennig a ddatblygir i fodloni gofynion maethol babanod gydymffurfio â'r gofynion o ran cyfansoddiad yn Rhan A o Atodiad 1) | Erthyglau 1 a 2(4) a Rhan A o Atodiad 1 |
| Yr ail is-baragraff o Erthygl 2(3) (gofyniad i fwyd ac eithrio bwyd a ddatblygir i fodloni gofynion maethol babanod gydymffurfio â'r gofynion o ran cyfansoddiad yn Rhan B o Atodiad 1) | Erthyglau 1 a 2(4) a Rhan B o Atodiad 1 |
| Erthygl 3(2) (gofyniad sy'n ymwneud â'r trothwy gweddillion ar gyfer sylweddau gweithredol penodol pan fo bwyd at ddibenion meddygol arbennig yn cael ei ddatblygu i fodloni gofynion maethol babanod a phlant ifanc) | Erthyglau 1 a 3(1), (3) a (5) ac Atodiad 2 |
| Erthygl 3(3) (uchafswm lefelau gweddillion ar gyfer y sylweddau a restrir yn Atodiad 2) | Erthyglau 1 a 3(1), (2) a (5) ac Atodiad 2 |

(**1**) Amnewidiwyd y tabl yn Atodlen 1 gan O.S. 2019/70 (Cy. 22).

| "**Darpariaeth benodedig yn y Rheoliad Dirprwyedig** | **Y darpariaethau sydd i gael eu darllen gyda'r ddarpariaeth benodedig yn y Rheoliad Dirprwyedig** |
|---|---|
| Erthygl 3(4) (gwahardd defnyddio cynhyrchion diogelu planhigion) | Erthyglau 1 a 3(1) a (5) ac Atodiad 3 |
| Erthygl 4 (enw'r bwyd) | Erthygl 1 ac Atodiad 4 |
| Erthygl 5(1) (gofyniad i fwyd at ddibenion meddygol arbennig gydymffurfio â Rheoliad (EU) Rhif 1169/2011(**2**) oni phennir fel arall) | Erthyglau 1 a 5(2) |
| Erthygl 5(2) (manylion mandadol ychwanegol sy'n ymwneud â gwybodaeth am fwyd) | Erthyglau 1 a 5(1) a (3) |
| Erthygl 5(3) (cymhwyso Erthyglau 13(2) a (3) o Reoliad (EU) Rhif 1169/2011 i fanylion mandadol ychwanegol) | Erthyglau 1 a 5(1) a (2) |
| Erthygl 6 (gofynion penodol ynghylch y datganiad ynglŷn â maethiad) | Erthygl 1 ac Atodiad 1 |
| Erthygl 7 (honiadau am faethiad ac iechyd) | Erthygl 1 |
| Erthygl 8(1) (gofyniad i fanylion mandadol ymddangos mewn iaith sy'n hawdd ei deall gan ddefnyddwyr) | Erthygl 1 |
| Yr is-baragraff cyntaf o Erthygl 8(2) (gwahardd lluniau o fabanod neu luniau neu destun penodol arall) | Erthygl 1 |
| Erthygl 8(3) (gofynion sy'n ymwneud â labelu, cyflwyno a hysbysebu) | Erthygl 1 |
| Yr is-baragraff cyntaf o Erthygl 8(4) (cyfyngiad ar gyhoeddi) | Erthygl 1 a'r trydydd is-baragraff o Erthygl 8(4) |
| Erthygl 8(5) (gwahardd defnyddio dyfeisiau hyrwyddo i gymell gwerthiannau) | Erthygl 1 |
| Erthygl 8(6) (gwahardd darparu cynhyrchion, samplau neu roddion hyrwyddo eraill am ddim neu am bris isel) | Erthygl 1 |
| Erthygl 9 (hysbysu) | Erthygl 1" |

(**2**) Rheoliad (EC) Rhif 1169/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 25 Hydref 2011 ynghylch darparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr, sy'n diwygio Rheoliadau (EC) Rhif 1924/2006 ac (EC) Rhif 1925/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor, ac sy'n diddymu Cyfarwyddeb y Comisiwn 87/250/EEC, Cyfarwyddeb y Cyngor 90/496/EEC, Cyfarwyddeb y Comisiwn 1999/10/EC, Cyfarwyddeb 2000/13/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor, Cyfarwyddebau'r Comisiwn 2002/67/EC a 2008/5/EC a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 608/2004 (OJ Rhif L 304, 22.11.2011, t. 18).